# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

**Cynghorydd: Anne Lloyd-Jones** **Grŵp: Annibynnol**

**Ward: Tywyn**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau: Cynrychioli Buddion y Gymuned yng Nghyngor Gwynedd.**
**Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol.**

**Gweithgareddau etholaethol:**

Fel Is-gadeirydd pwyllgor Cronfa Apêl yr Ysbyty a chan weithio gyda'r grŵp prosiect, buom yn llwyddiannus wrth ddenu dros £5miliwn tuag at ganolfan gofal sylfaenol newydd a wardiau gydag 16 o wlâu yn Ysbyty Tywyn ac roeddwn wrth fy modd yn cael bod yn rhan o grŵp bychan fu'n cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd ar y pryd, Mark Drakeford AC, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr i weld y datblygiad newydd.

Yn dilyn y £100,000 a gyfrannwyd gennym o'r pwyllgor Apêl i'r uned Belydr-X yn yr Ysbyty, rydym hefyd wedi cyfrannu dros £20k ar gyfer sganiwr llygaid i'w ddefnyddio yn yr ysbyty i arbed cleifion rhag gorfod teithio i Ysbyty Aberystwyth am sganiau cyn llawdriniaeth, ac rydym wedi ymrwymo i roi hyd at £10k ar gyfer bath arbennig yn yr ysbyty newydd.

Ildiais fy sedd fel Cadeirydd corff Llywodraethol Ysgol Penybryn y llynedd ar ôl sawl blwyddyn yn y Gadair, a hynny'n rhannol oherwydd nad oeddwn yn gallu mynychu cwrs ar sut i fod yn Gadeirydd oherwydd ymrwymiadau eraill ar y nosweithiau yr oedd y cwrs yn cael ei gynnig. Fodd bynnag, rwy'n falch fod y buddsoddiad o £1.8 miliwn ar gyfer y Neuadd newydd ac er mwyn uwchraddio dosbarthiadau wedi derbyn croeso mawr.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfûm â Chynghorwyr eraill, Swyddogion Gwynedd, yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis-Thomas a'r Aelod Seneddol Liz Saville Roberts ar sawl achlysur ynghylch materion etholaethol. Rwy'n ddiolchgar am eu cymorth yn ogystal â chymorth Arweinydd y Cyngor, Dyfed Edwards ac aelodau'r Cabinet sydd wedi bod yn llwyr gefnogol yn ystod blwyddyn anodd o ystyried y cyfyngiadau ariannol.

Rwyf wedi cael sawl cyfarfod gyda fy etholwyr yn ystod y flwyddyn, yn ymdrin â thai, iechyd, cynllunio, addysg, materion pasport i enwi dim ond rhai!

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Wedi mynychu cyfarfodydd misol y Cyngor Tref a'r amrywiol is-bwyllgorau. Fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ynysmaengwyn, cawsom lwyddiant eto eleni yn ennill y wobr fawreddog sef y Wobr Baner Werdd ar gyfer y Parc. Fodd bynnag, ni fyddaf yn gallu gwasanaethu ar Bwyllgor Safle Carafanau Ynysmaengwyn mwyach a bydd gen i hiraeth ar ei ôl ar ôl bod yn aelod am ddeng mlynedd ar hugain. Dymunaf y gorau i'r safle a'r staff a hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled a'u hymroddiad.

Fel Cadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru ers 2001 rwyf wedi cael sawl cyfarfod gyda gwleidyddion a thîm Croeso Cymru i sicrhau bod yr holl ardal yn elwa'n economaidd o'r diwydiant twristiaeth. Rwyf wedi rhoi rhybudd y byddaf yn ymddeol fel Cadeirydd yn ein CCB ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn rhoi'r cyfle i fy Is-gadeirydd daclo'r heriau sy'n wynebu'r diwydiant. Un ohonynt yw'r cyfryngau cymdeithasol - rhywbeth nad wyf erioed wedi cael amser i ddod i'w ddeall!!

Cododd cangen leol yr NSPCC, ble'r wyf wedi bod yn Drysorydd ers 1989, dros £1500 i'r elusen yn ystod y flwyddyn.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:**

| PWYLLGOR | NIFER CYFARFODYDD* | PRESENNOL | AELOD LLEOL / SYLWEDYDD / CRAFFU | YMDDIHEURO | ABSENNOL |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhadledd Gyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Fforwm Ardal Meirionnydd | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| Pwyllgor Cynllunio | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 |
| Y Cyngor | 6 | 5 | 0 | 1 | 0 |

Nifer y cyfarfodydd pwyllgor yn ystod 2015/16

Canran Presenoldeb: 98%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir uchod oherwydd:**

Un cyfarfod o'r Cyngor oherwydd ymrwymiadau eraill

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:**

*CCG (Cartrefi Cymunedol Gwynedd) mynychais dros 20 o gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn ystod y flwyddyn.*

*Eleni, rwyf yn aelod o'r pwyllgor Asedau a Buddsoddiadau ac yn is-gadeirydd y pwyllgor Adnoddau.*

*Cronfa Addysg Dr Williams*

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:**

*Cyfarfod Cyswllt Arfordir y Cambrian*

*Llywodraethwyr a chyfarfodydd is-grŵp Ysgol Uwchradd ac Ysgol Penybryn, Tywyn (Llywodraethwr)*

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| | 19/5/15 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 7/7/15 |
| Y Bil Cynllunio | 5/11/15 |
| Yr Her Gofal - Paratoi ar gyfer y Ddeddf | 21/1/16 |
| Diweddariad - Côd Ymddygiad 2016 | 23/3/16 |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | 20/4/16 |
| Hyfforddiant i-pad | 22/4/16 |
| | |

**Cyfanswm nifer yr oriau:** 14 **awr**